

Cyfarfod Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd

Cofnodion Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd a gynhaliwyd Ddydd Iau, 28 Medi 2017 yn Ystafelloedd Eleth ac Eilian, yn swyddfa safle Wylfa Newydd.

Yn Bresennol (sefydliadau yn nhrefn yr wyddor):

Enw	Sefydliad
Arolygydd Trevor Howes	CNC - Swyddog Cyswllt Rhanddeiliaid
Y Cyngorydd G.O Jones	Cyngorydd Ward Llifon Ynys Môn
Y Cyngorydd John Griffith	Cyngorydd Ward Talybolion Ynys Môn
Y Cyngorydd Kenneth P Hughes	Cyngorydd Ward Talybolion Ynys Môn
Y Cyngorydd Aled Morris Jones	Cyngorydd Ward Twrcelyn Ynys Môn
Y Cyngorydd Richard Griffiths	Cyngorydd Ward Twrcelyn Ynys Môn
Y Cyngorydd Richard Owain Jones	Cyngorydd Ward Twrcelyn Ynys Môn
Y Cyngorydd Dafydd Rhys Thomas	Cyngorydd Ward Ynys Gybi Ynys Môn
Y Cyngorydd Derek Owen	Cyngor Cymuned Llanbadrig (Cadeirydd)
Y Cyngorydd Dafydd Griffiths	Cyngor Cymuned Llanelian (Cadeirydd)
Annwen Morgan	Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyngorydd Gerry Belanger	Cyngor Tref Amlwch
John Chamberlain	Cymdeithas Amaethyddol Môn/ Clwb Rotari Caergybi
Dr Tom Conway	Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa
Alun Roberts	Cymunedau yn Gyntaf Môn
Wyn Thomas	Grŵp Llandrillo Menai
Medwyn Griffiths	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Gafyn Jones	Magnox Ltd
Stuart Law	Magnox Ltd
Rita Lyon	Rheolwr Clwstwr Ynys Môn Cymunedau yn Gyntaf Môn
David Hawkins	Unite the Union
Paddy McNaught	Unite the Union

Ymddiheuriadau

Enw	Sefydliad
Alli Hunt	Academi Sgiliau Genedlaethol Niwclear
Janet Finch-Saunders AC	Aelod Cynulliad Cenedlaethol Aberconwy
Siân Gwenllian AC	Aelod Cynulliad Cenedlaethol Arfon
Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC	Aelod Cynulliad Cenedlaethol Dwyfor Meirionnydd
Michael Dodds	Aelod o'r Cyhoedd
Llŷr Gruffydd AC	Aelod Rhanbarthol Cynulliad Cenedlaethol Gogledd Cymru
Abi Hughes	Anabledd Taran
Y Cyngorydd Llinos Medi Huws	Cyngorydd Ward Talybolion Ynys Môn (Arweinydd)
Y Cyngorydd J Arwel Roberts	Cyngorydd Ward Ynys Gybi Ynys Môn
Jackie Blackwell	Cyngor ar Bopeth Ynys Môn
Margaret Thomas	Cyngor ar Bopeth Ynys Môn

Y Cyngorydd John Jukes	Cyngor Cymuned Llannerch-y-medd
Anna M Jones	Cyngor Cymuned Tref Alaw
Y Cyngorydd Trefor Jones	Cyngor Cymuned Tref Alaw
Dr Gwynne Jones	Cyngor Sir Ynys Môn (Prif Weithredwr)
Maurice Core	Cynrychiolydd Safle'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear ar gyfer Gorsaf Bŵer Wylfa
Keith Williams	Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru
Geraint Hughes	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Medwyn Williams	Magnox Ltd
Andrew Connolly	National Grid
Gareth Williams	National Grid
Phil Scott	Partneriaeth Cyrchfan Ynys Môn
Dr John Idris Jones	Parth Menter Eryri
Carys Edwards	Pennaeth Adnoddau Dynol Cyngor Sir Ynys Môn
Yr Athro David Shepherd	Prifysgol Bangor
Steve Graham	Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR)
Aaron Bayley	Ysgol Syr Thomas Jones

Os nad yw eich enw, drwy ryw amryfusedd, wedi'i gynnwys ar y rhestr neu os yw wedi'i gofnodi'n anghywir, cysylltwch â Horizon ar 0800 954 9516 neu ag yholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com

I gael gwybodaeth gyffredinol am y prosiect neu i ofyn unrhyw gwestiynau i Horizon, cysylltwch â'r tîm ar 0800 954 9516 neu yn yholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com ac edrychwch ar www.horizonnuclearpower.com/hafan

Mae modd gweld y cofnodion hyn a'r holl gyflwyniadau o gyfarfod Grŵp Cyswllt y Prosiect ar www.wylfaplq.com/cymraeg

1. Croeso, cofnodion cyfarfod Mai 2017 a materion yn codi - Dennis Evans, Cadeirydd

- Croesawodd Dennis Evans (**DE**) bawb i'r cyfarfod am 5:30pm a chyflwynodd y siaradwyr.
- Cafodd y cofnodion eu cyflwyno a'u hadolygu. Cododd Tom Conway (**TC**) bwynt o ran esboniad o gofnodion cyfarfod 25 Mai 2017 ynghylch y disgrifiad o'r BWR. Nododd **DE** yr esboniad a dywedodd y bydd diweddariad am y GDA (Asesiad Dyluniad Generig) yng nghyfarfod nesaf Grŵp Cyswllt y Prosiect.
- Nododd **DE** gwestiwn y Cyngorydd Ken Hughes (**KH**) yng nghofnodion cyfarfod 25 Mai am ddiogelwch TG yn yr orsaf bŵer newydd a dywedodd fod hyn yn bwysig dros ben wrth feddwl am y straeon diweddar yn y cyfryngau am seiberddiogelwch.
- Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi a derbyniwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

2. Cyflwyniad a'r diweddaraif am gynnydd Wylfa Newydd – Greg Evans, Cyfarwyddwr Gweithrediadau; Sasha Davies, Pennaeth Datblygu Strategol Cymru

- Cyflwynodd Greg Evans (**GE**), Cyfarwyddwr Gweithrediadau, ei hun a rhoddodd olwg gyffredinol o'i rôl yn Horizon. Dywedodd fod 60 o ymweliadau wedi bod â'r safle gan bobl o'r tu allan i'r cwmni ers dechrau'r flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys myfyrwyr profiad gwaith, buddsoddwyr posibl i'r dyfodol yn ogystal â swyddogion llywodraeth.
- Dywedodd **GE** fod tîm o oddeutu 50 aelod o staff ar y safle (250 gan gynnwys contractwyr), ac er bod hyn yn gymharol fach wrth feddwl am faint y gweithlu yn y dyfodol, roedd hi'n brysur ar y safle. Pwysleisiodd y bydd Pŵer Niwclear Horizon yn rhan annatod o gymuned Ynys Môn drwy gydol oes y Prosiect.
- Cyflwynodd **GE** Sasha Davies (**SD**) Pennaeth Datblygu Strategol Cymru yn Horizon.
- Croesawodd **SD** bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys gwesteion o Oldbury yn Ne Swydd Gaerloyw. Rhoddodd **SD** olwg gyffredinol o'r uchafbwyntiau cymunedol diweddar, gan gynnwys cefnogaeth Horizon at Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2017, ar Ynys Môn, a fu'n llwyddiant ysgubol o ran STEM ac ymgysylltu cymunedol ehangach.
- Nododd **SD** y bu'r Eisteddfod Genedlaethol yn gyfle i gyflwyno Horizon i gynulleidfa ehangach ac roedd nifer y bobl ifanc a oedd wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg) ar y stondin wedi cael cryn argraff arnyn nhw. Dywedodd **SD** fod Horizon yn bwriadu bod yn rhan o Eisteddfod 2018, sy'n cael ei chynnal yng Nghaerdydd.
- Nododd **SD** bresenoldeb Horizon yn Sioe Môn eleni hefyd, a oedd yn ddigwyddiad llwyddiannus arall. Diolchodd i bawb a ddaeth i'r babell.
- Dywedodd **SD** fod ymgynghoriad cyn ymgeisio cam tri Horizon - PAC3 - wedi dod i ben ym mis Mehefin. Roedd dau ymgynghoriad Deddf Cynllunio Gwlad a Thref wedi cael eu cynnal ym mis Awst; un ar gyfer cynigion Horizon i baratoi a chlirio'r safle a'r llall ar gyfer y gwelliannau i'r ffordd. Roedd y rhain yn brosiectau pwysig yn lleol a byddai Cyngor Sir Ynys Môn yn penderfynu ar y rhain.
- Dywedodd **SD** fod ail garfan Horizon o brentisiaid wedi dechrau erbyn hyn a bod y garfan gyntaf yn dal i fod yn aelodau pwysig o'r tîm. Dywedodd **SD** fod y prentisiaid wedi bod yn cymryd rhan weithredol mewn digwyddiadau drwy gydol yr haf, yn enwedig yr Eisteddfod Genedlaethol a Sioe Môn. Roedd digwyddiadau allgymorth addysg eraill wedi parhau dros y gwyliau, gan gynnwys cynnal Wythnos Cipolwg ar Waith lwyddiannus arall ar gyfer myfyrwyr blwyddyn 11 a chweched dosbarth.
- Dywedodd **SD** fod Horizon unwaith eto wedi cefnogi'r cynllun Cwmni Prentis Menai ar gyfer Grŵp Llandrillo Menai gyda buddsoddiad o £90,000. Dywedodd **SD** fod buddsoddi mewn sgiliau'n bwysig i Horizon ac y byddai'r cwmni hefyd yn cefnogi Sgiliau Cymru yn Llandudno yr wythnos ganlynol (4 - 5 Hydref), ac y byddai ganddyn nhw stondin i dynnu sylw at yr agenda STEM.
- Cyhoeddodd **SD** fod aelod newydd o'r tîm, Awen Jones, wedi ymuno â Horizon ac y bydd yn gweithio gyda Claire Burgess i helpu i siapiau gweithgareddau allgymorth addysg ar gyfer y cwmni. Roedd Awen eisoes wedi trefnu 19 o ddigwyddiadau ysgol eleni i siarad â myfyrwyr am STEM.

- Dywedodd **SD** fod Horizon wedi aildechrau cynnal y Cymorthfeydd Agored misol gan fod gwyliau'r haf wedi dod i ben. Mae'r rhain yn cael eu cynnal ar drydydd dydd Llun bob mis ac maen nhw'n gyfle i bobl leol ofyn cwestiynau i Horizon.
- Dywedodd **SD** fod digwyddiadau allgymorth gweithredol yn y gymuned hefyd yn flaenoriaeth ochr yn ochr â'r Cymorthfeydd Agored a bod Horizon yn darparu cymorth i fudiadau ac elusennau lleol. Roedd Horizon wedi cefnogi'r RNLI yn ddiweddar a grŵp cymunedol Men with Sheds Lleol. Dywedodd **SD** fod Delyth Owen (**DO**), Swyddog Cynnwys y Gymuned Horizon, yn gweithio'n agos gyda grwpiau cymunedol i annog pobl i gymryd rhan yn y Prosiect. Roedd **GE** hefyd yn dod i gyfarfodydd grwpiau cymunedol er mwyn helpu i egluro'r Prosiect i bobl na fyddent efallai'n ymgysylltu fel arall.
- Rhoddodd **SD** olwg gyffredinol o'r gweithgareddau sydd ar y safle rŵan ac yn y dyfodol, gan gynnwys gwaith gan NGET (National Grid Electricity Transmission) ar y rhwydwaith 132kV lleol a gwaith ailwampio Dŵr Cymru ar y bibell ymgodol yng Nghemaes. Eglurodd **SD** hefyd y byddai cyn Ganolfan Ymwelwyr Magnox yn cael ei hailwampio er mwyn ei defnyddio fel swyddfeydd ac i ailagor y caffi.
- Dywedodd **SD** fod y gwaith archaeolegol yn mynd rhagddo'n dda a bod hyn wedi sbarduno llawer iawn o diddordeb yn lleol. Roedd y cloddio cymunedol yn parhau ac roedd ymweliadau gan ysgolion ar y gweill ar gyfer diwedd mis Hydref. Roedd cyfryngau lleol hefyd wedi bod yn ymweld â'r safle.
- Dywedodd **SD** fod gweithgareddau cadwyn gyflenwi a datblygu sgiliau yn parhau. Roedd Rheolwr Masnachol Horizon, Rhodri Owen, wedi bod yn gweithio gyda busnesau lleol ar draws y rhanbarth a'r sector adeiladu yn ehangach. Ei nod oedd cynyddu diddordeb ac ymwybyddiaeth o'r Prosiect. Roedd Grŵp Llandrillo Menai yn symud ymlaen gyda'r ganolfan peirianeg newydd yn Llangefni a fyddai hefyd o fudd i'r prosiect.
- Dywedodd **SD**, ar lefel ranbarthol, fod Horizon yn brysur ac yn cefnogi Gwobrau Busnes Gogledd Cymru y Daily Post, ym mis Hydref, a'r Wales Fast Growth 50 Businesses yng Nghaerdydd. Mae Horizon yn dal i fod yn aelod gweithgar o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Prince's Trust Cymru a'r Llysgenhadon Ifanc. Dywedodd **SD** fod y cysylltiadau hyn yn bwysig.
- Diolchodd **SD** i'r gynulleidfa a daeth â'i chyflwyniad i ben drwy ddweud y byddai gweddill 2017 yn dal yn brysur, gan adeiladu ar y gwaith sydd wedi cael ei wneud dros yr haf.

Cwestiynau a Sylwadau:

- Diolchodd y Cyngorydd Gwilym O Jones (**GJ**) i **SD** am y cyflwyniad a rhoddodd glod i Horizon am ei bresenoldeb yn yr Eisteddfod ac yn Sioe Môn. Dywedodd ei bod hi'n braf gweld pobl ifanc leol yn cymryd rhan. Ychwanegodd ei fod yn falch o glywed fod 21 o bobl ifanc leol wedi cael eu cyflogi yn Horizon gyda'r garfan ddiweddaraf o brentisiaid ac roedd yn dymuno'n dda iddyn nhw i'r dyfodol.

- Dywedodd **DE** fod llawer iawn o waith yn mynd ymlaen ar ac oddi ar y safle i symud y prosiect ymlaen. Dywedodd fod prentisiaethau yn rhan o hyn a bod y gweithgareddau ymgynghori hefyd wedi dangos cynnydd.
- Holodd y Cynghorydd Dafydd Griffiths (**DG**) a oedd hi'n bosibl gwybod o ba ysgolion oedd y prentisiaid er mwyn monitro pa mor llwyddiannus fu'r rhaglen allgymorth yn yr ardal leol.
 - Atebodd **SD** fod y rhan fwyaf o'r prentisiaid yn dod o ysgolion Ynys Môn ac roedd rhai eraill yn dod o ysgolion Gorllewin Cymru.
- Dywedodd Wyn Thomas (**WT**) fod bron i 250 o bobl wedi gwneud cais am y 12 rôl prentisiaeth eleni.
 - Dywedodd Richard Foxhall (**RF**) fod y nifer yn uwch - roedd 307 wedi cofrestru eu diddordeb.
- Holodd John Chamberlain (**JC**) a oedd rhywbeth o bwys wedi dod i'r fei yn ystod y cloddio archaeolegol.
 - Cadarnhaodd Daron Hodges (**DH**) fod rhai eitemau ac ardaloedd o ddiddordeb wedi cael eu canfod, gan gynnwys mynwent, ond dim byd arwyddocâd cenedlaethol eto. Roedd tua 24 ardal o ddiddordeb penodol wedi cael eu canfod, a byddai rhagor o waith ymchwilio yn cael ei wneud yn y manau hyn rŵan. Eglurodd **DH** y byddai'r cloddfeydd yn parhau tan y tymor gwlyb, cyn ailddechrau yn y gwanwyn. Roedd yn disgwyl y byddai'r cloddfeydd yn gorffen yn ystod haf / hydref 2018.
 - Dywedodd **DH** fod y gwaith yn cyflogi cynifer o archaeolegwyr a busnesau lleol â phosibl, gan gynnwys Brython, ar yr ynys. Dywedodd fod cloddfeydd cymunedol hefyd yn cael eu cynnal a oedd wedi bod yn boblogaidd dros ben.

3. Yr wybodaeth ddiweddaraf am gydsyniad cynllunio a'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu – Ifer Gwyn, Rheolwr Cysylltiadau Rhanddeiliaid, Pŵer Niwclear Horizon

- Cyflwynodd Ifer Gwyn (**IG**) yr wybodaeth ddiweddaraf am y cysyniadau a'r broses gynllunio ar gyfer Wylfa Newydd. Dywedodd fod yr ymgynghoriad Cam Tri (PAC3) wedi dod i ben yn ystod yr haf, ac y cynhaliwyd dros 20 o ddigwyddiadau a bod dros 1,000 o bobl wedi cymryd rhan. Dywedodd fod llawer iawn o adborth wedi cael ei goladu gan y cyhoedd, gan rhanddeiliaid a gan gyrff arbenigol. Mae Horizon rŵan yn craffu ar yr adborth hwn a byddai Horizon yn rhannu rhagor o wybodaeth â rhanddeiliaid yn nes ymlaen eleni.
- Eglurodd **IG** y byddai'r sgysiau hyn yn cyfrannu at y cais terfynol am Orchymyn Cydsyniad Datblygu i Lywodraeth y DU. Diolchodd **IG** i'r rheini a oedd wedi rhoi o'u hamser i gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad.
- Dywedodd **IG** y byddai dau gais cynllunio lleol yn cael eu cyflwyno i'r awdurdod lleol tua diwedd mis Hydref. Mae un cais am welliannau i'r ffordd ac mae'r llall i baratoi a chlirio'r safle. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y naill gais a'r llall ym mis Awst ac roedd sgysiau gyda rhanddeiliaid a chymunedau lleol hefyd wedi cyfrannu atyn nhw.

- Rhoddodd **IG** drosolwg byr o amserlenni'r Prosiect. Nododd fod y dyddiad i gyflwyno'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu wedi cael ei symud o eleni i chwarter cyntaf 2018. Dywedodd nad ydy hyn yn newid y Prosiect yn sylweddol, ond mae'n golygu bod Horizon yn gallu treulio amser yn cynnal rhagor o drafodaethau ynghylch rhai elfennau o'r Prosiect gyda chyrrff rhanddeiliaid. Dywedodd fod y cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu yn ddogfen hir, sy'n cynnwys dros 30,000 o dudalennau o wybodaeth a bod y cwmni'n canolbwyntio ar gael y manylion hynny'n gywir.
- Dywedodd **IG** fod cyfres o gerrig milltir eraill roedd y cwmni'n gweithio arnyn nhw. Dywedodd fod y rhain yn cynnwys pedwar cais am drwyddedau gan Gyfoeth Naturiol Cymru sy'n berthnasol i sylweddau radiolegol, gosodiad hylosgi, gollwng dŵr a thrwydded forol. Byddid yn cyflwyno cais am y rhain yn ystod yr hydref/gaeaf a byddai hyn hefyd yn cynnwys ymgynghori â'r cyhoedd.
- Gorffennodd **IG** ei gyflwyniad drwy roi golwg gyffredinol o waith manteision cymunedol statudol Horizon. Roedd hyn yn cynnwys creu gwasanaeth cyflogaeth a sgiliau, rhaglen o fuddsoddiad cyfalaf ar gyfer pum ysgol uwchradd yr ynys, tai fforddiadwy, creu cronfa twristiaeth a phenodi cydlynedd iaith Gymraeg a'i diwylliant i sicrhau bod yr iaith yn cael ei diogelu.
- Diolchodd **DE** i **IG** ac ychwanegodd nad oedd y cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu yn cael ei gyflwyno yn ôl y disgwyl oherwydd bod hyn wedi cael ei ohirio er mwyn ystyried yr holl adborth i'r ymgynghoriad ac er mwyn darparu rhagor o wybodaeth i'r grwpiau a oedd wedi gofyn am hynny.

Cwestiynau a Sylwadau:

- Dywedodd **TC** ei fod wedi awgrymu cynnig bod llwybrau beicio penodol yn cael eu hystyried ar gyfer yr A5025. Gofynnodd beth oedd wedi digwydd i hyn.
 - Dywedodd **IG** fod eraill wedi awgrymu hyn. Dywedodd ei fod yn fater pwysig a'i fod wedi cael ei ystyried wrth baratoi'r cais Deddf Cynllunio Gwlad a Thref ar gyfer y Gwelliannau i'r Briffordd. Serch, nid oedd dim cynlluniau i ddarparu llwybr beicio penodol fel rhan o'r cais.
 - Roedd **DE** yn cydnabod pryderon **TC** a phwysleisiodd hefyd y dylai'r ffordd fod yn ddigon llydan er mwyn caniatáu i draffig symud yn rhwydd, yn enwedig er mwyn i gerbydau lletach a cherbydau fferm allu pasio beicwyr.
- Gofynnodd **TC** am ragor o fanylion ynghylch cyflenwi dŵr i'r safle ac a oedd angen gwneud Llyn Alaw yn fwy.
 - Dywedodd **DH** eu bod wedi cysylltu â Dŵr Cymru ynghylch hyn. Roedd modd darparu manylion ynghylch yn union faint o ddŵr fydd ei angen ar gais, petai **TC** yn ysgrifennu at Horizon i ofyn am yr wybodaeth honno. Byddai angen i Dŵr Cymru roi gwybod i Horizon pa waith sydd ei angen. Mae'r drafodaeth hon yn dal i barhau.
 - Gofynnodd **TC** a fyddai angen atgyfnerthu'r orsaf pwmpio.
 - Dywedodd **DH** y byddai hyn yn cael ei wneud gan Dŵr Cymru gyda mewnbwn gan Horizon yn ôl yr angen.
- Mynegodd Derek Owen (**DO**) cadeirydd Cyngor Cymuned Llanbadrig ei siom gyda Horizon gan nad oedd yn credu bod pryderon y gymuned leol ynghylch troadau Betws ar hyd yr A5025 i'r dwyrain o Gemaes wedi cael eu hystyried. Dywedodd fod tystiolaeth glir bod contractwyr yn defnyddio'r

ffordd ac y byddai hyn yn parhau yn ystod y cam adeiladu. Mynegodd rhywfaint o bryder hefyd nad oedd y gwelliannau i'r ffordd yn addas ar gyfer cerbydau mwy.

- Roedd **IG** yn cydnabod y pryderon a dywedodd fod y mater yn cael ei ystyried yn briodol er mwyn ymateb i sylwadau ac adborth yn ogystal â'r gwaith modelu mae Horizon wedi'i wneud. Dywedodd mai'r cwestiwn oedd sut roedd y mater yn cael sylw, naill ai drwy'r broses Gorchymyn Cydsyniad Datblygu neu drwy brosesau cynllunio lleol.
 - Dywedodd **DE** fod y mater wedi cael ei godi'n gyson a bod angen rhoi sylw iddo; roedd pobl wedi colli eu bywydau ar y ffyrdd peryglus hyn, a siawns wrth feddwl am raddfa enfawr y prosiect, y byddai modd ymestyn y gyllideb i wella'r ffyrdd.
- Dywedodd y Cynghorydd Gwilym Jones (**GJ**) fod y mater o ran y gwelliannau i'r A5025 ger Cemaes wedi cael ei godi ers blyneddau mewn pwyllgorau. Ychwanegodd ei fod yn falch y bydd gwaith yn cael ei wneud rhwng y Fali a Thregele ac roedd yn falch bod gwelliannau'n cael eu gwneud. Ei brif bryder oedd bod busnesau yn y Fali yn poeni am golli busnes petai'r ffordd osgoi yn cael ei hadeiladu a bod y rhan bresennol o'r A5025 o'r Fali yn cael ei chau.
 - Dywedodd **RF** ei fod yn y digwyddiad ymgynghori yn y Fali lle'r oedd busnesau a'r gymuned wedi mynegi eu pryderon i Horizon ac i beirianwyr priffyrdd Cyngor Sir Ynys Môn a oedd yn bresennol yno ynghylch y ffordd osgoi arfaethedig. Rhoddwyd sicrwydd y bydden nhw'n ailedrych a fyddai'n bosibl cadw'r rhan honno o'r ffordd ar agor.
 - Dywedodd y Cynghorydd John Wyn Griffith (**JWG**) fod y gwaith i'r A5025 yn bwysig iawn ond y byddai'n golygu llawer iawn o oleuadau traffig, a fyddai'n achosi tagfeydd. O'r herwydd, ac er mwyn osgoi'r gwaith, byddai'r traffig yn defnyddio ffyrdd a phentrefi llai eraill, na fydden nhw'n gallu ymdopi â llawer iawn o draffig. Gofynnodd **JWG** a oedd unrhyw gynlluniau i wella'r ffyrdd llai hyn.
 - Atebodd **IG** nad oedd hyn wedi cael ei gynnwys yn y cais cynllunio presennol. Serch hynny, byddai Horizon yn gweithio'n agos gyda'r contractwyr ffyrdd i leihau tagfeydd ac anhwylostod pryd bynnag y byddai hynny'n bosibl.
 - Ychwanegodd **JWG** ei bod hi bron yn amhosibl i ddau gar basio ei gilydd ar y ffyrdd llai a gofynnodd i ledu'r ffyrdd hyn gael ei ystyried rŵan.
 - Ar y pwynt yma, roedd y Cynghorydd Ken Hughes (**KH**), y Cynghorydd Richard Jones (**RJ**) a **JWG** wedi datgan diddordeb gan eu bod yn aelodau o Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn.

4. Diweddariad ar y cynnydd – Lowri Joyce, Rheolwr Cysylltiadau Rhanddeiliaid Rhanbarthol, Menter Newydd

- Cyflwynodd Lowri Joyce (**LJ**) yr wybodaeth ddiweddaraf gan Menter Newydd, y contractwr sy'n gyfrifol am adeiladu Wylfa Newydd. Dywedodd fod Menter Newydd yn gweithio yn ôl amserlen Horizon ac mai eu prif nod ydy cynhyrchu cynllun cyflenwi ar sylfaen gadarn er mwyn cyflawni'r gwaith peirianeg, caffael ac adeiladu yng nghyswllt Wylfa Newydd. Pwysleisiodd **LJ** brofiad Menter Newydd yn y maes, i weithio'n lleol ac yn fyd-eang, gyda thimau yn y DU, yn Japan ac yn UDA.
- Cyflwynodd **LJ** fanylion y gwaith sydd wedi cael ei wneud hyd yma, a oedd yn cynnwys gwaith tuag at Benderfyniad Buddsoddi Terfynol Horizon; cynyddu'r manylion, yr eglurder a'r sicrwydd ar draws

y gwaith cynllunio prosiect. Dywedodd **LJ** fod gwaith cynllunio manwl yn hanfodol er mwyn dangos ei fod yn ddichonadwy, er mwyn bod yn sail i'r dull adeiladu ac er mwyn paratoi i gyflawni.

- Dywedodd **LJ** fod y flwyddyn ariannol hon wedi gweld archebion tasgau gan Horizon ac y cytunwyd ar hyn rŵan tan fis Mawrth 2018. Roedd sut roedd y cyfrifoldebau wedi cael eu rhannu wedi cael ei egluro i raddau helaeth, er enghraifft, pwy sy'n gyfrifol am adeiladu beth. Roedd Menter Newydd hefyd yn cynnal trafodaethau gyda Horizon ynghylch y cynlluniau adeiladu manwl.
- Cyflwynodd **LJ** yr wybodaeth ddiweddaraf yn gryno am y broses Asesiad Dyluniad Generig. Dywedodd fod y broses yn edrych ar ddiogelwch, diogelwch amgylcheddol a diogelwch eiddo. Mae gan Hitachi-GE fetreg gwyrdd gan y rheoleiddwyr ar gyfer cwblhau'r broses pedair blynedd ym mis Rhagfyr 2017. Dywedodd fod yr holl broses wedi bod yn dryloyw a bod yr holl gyflwyniadau ar gael ar y wefan. Roedd dros 80 o sylwadau wedi cael eu cyflwyno ac roedd Hitachi-GE wedi ymateb i bob un ohonyn nhw.
- Gorffennodd **LJ** ei chyflwyniad drwy ddweud bod gwaith yn mynd rhagddo'n dda. Ar gyfer y rheini sydd â diddordeb, mae'r wefan ar gael yn www.menternewydd.com

Cwestiynau a Sylwadau:

- Dywedodd **DE** y byddai Horizon yn recriwtio llawer mwy ar ôl 2020 a'u bod yn edrych ar staff parhaol ar gyfer yr orsaf. Dywedodd y bydd oedolion sy'n ddysgwyr yn rhan bwysig o'r Prosiect a gofynnodd a oedd rhaglen ar waith i hyfforddi'r rheini sydd eisoes mewn gwaith.
 - Dywedodd **LJ** fod Menter Newydd yn ystyried sgiliau'r gweithlu a'u bod yn gweithio i ddeall a fyddai modd defnyddio rhaglenni hyfforddi sydd eisoes ar gael yn ogystal â gwersi sydd wedi cael eu dysgu o brosiectau eraill.
 - Dywedodd **SD** fod Horizon yn gweithio'n dda iawn gyda Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria a'u bod yn edrych ar ddata a demograffeg y gweithlu i asesu sut byddai modd hyfforddi a datblygu'r gweithlu. Dywedodd fod disgwyl i'r gweithwyr adeiladu ddod o Gymru/y DU a'r tu hwnt.
 - Dywedodd **WT** fod gwaith i ddatblygu sgiliau eisoes yn digwydd, yn enwedig mewn llyfdd fel y ganolfan offer trwm yng nghampws Coleg Menai yn Llangefni. Dywedodd hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar ddatblygiad canolfan sgiliau mawr newydd erbyn diwedd y mis nesaf. Dywedodd mai'r prif fater oedd ceisio defnyddio'r prosiect hwn i wella sgiliau'r gweithlu presennol, ond ei bod yn rhaid cydnabod mai dim ond cyfran o'r adnoddau dynol sydd eu hangen ar gyfer y prosiect enfawr yma a fyddai'n gallu dod o'r ardal leol.
 - Ychwanegodd **SD** yng nghyd-destun ehangach y DU, fod prosiectau mawr eraill ar draws y DU hefyd a bod rhannu sgiliau ar draws y prosiectau hyn - yn ogystal â'u defnyddio fel cyfleoedd i hyfforddi pobl - yn rhywbeth roedd tîm Horizon yn ei drafod â Llywodraeth y DU.
- Gofynnodd Alun Roberts (**AR**) o Cymunedau Ymlaen Môn sut y byddai'r rheini sydd eisoes mewn gwaith neu dros 19 oed yn talu am ragor o hyfforddiant. Gofynnodd a fyddai modd darparu cronfa i bobl leol allu cael benthyciad llog isel er mwyn talu am eu hyfforddiant eu hunain.

- Dywedodd **DE** y byddai hyfforddiant min nos a dros benwythnos yn ddefnyddiol, ond dywedodd nad yw'n boblogaidd.
- Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (**DT**) fod y gymuned yn poeni na fyddan nhw'n gallu llenwi'r holl swyddi a fydd yn cael eu creu.
 - Cadarnhaodd **IG** y byddai'r ddogfen Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, a fyddai ar gael i'r cyhoedd, yn cynnwys adran ynghylch sut byddai Horizon yn rheoli hyn. Dywedodd y byddai'r rolau'n cael eu llenwi mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys yn lleol.
- Dywedodd Paddy McNaught (**PM**) fod angen llunio strategaeth caffael foesebol er mwyn arwain contractwyr ar eu telerau ac amodau. Dywedodd y gallai hon hefyd gynnwys lefelau'r bobl leol y byddai disgwyl i'r contractwyr eu cyflogi. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru newydd gyhoeddi canllawiau tebyg er mwyn osgoi sefyllfaoedd lle byddai cosbrestrau'n cael eu llunio.
 - Cadarnhaodd Leon Flexman (**LF**), Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol Horizon, fod Horizon yn datblygu dull gweithredu fesul haen mewn perthynas â rheoli'r gadwyn gyflenwi mewn ffordd foesebol. Roedd hyn ar waith yn rhannol yn barod drwy Siarter y Gadwyn Gyflenwi, a oedd yn llywodraethu disgwyliadau a moeseg, ond byddai cod ymarfer adeiladu hefyd a fydd yn rhoadru i lawr i gontractwyr sy'n gweithio ar y Prosiect.
- Diolchodd y Cynghorydd Aled Morris Jones (**AMJ**) i **LJ** am y cyflwyniad a oedd yn dangos yr hyn roedd Horizon yn ymgynraedd tuag ato. Dywedodd fod angen seilwaith fel Wylfa Newydd ar y DU a bod cefnogaeth i'r prosiect yn bwysig yn yr ardal leol. Roedd **AMJ** hefyd yn croesawu symud y llety i Drwyn Wylfa, ond nid oedd yn credu y dylai'r holl weithlu fod yno oherwydd graddfa'r Prosiect. Roedd yn teimlo bod angen gwasgaru llety i weithwyr o amgylch yr ardal, o bosibl yn Rhosgoch neu yn Amlwch. Roedd yn teimlo y byddai hyn yn helpu'r achos dros y gwelliannau i'r ffordd.
- Dywedodd **JC** fod y busnesau bach roedd wedi gweithio gyda nhw o blaid y datblygiad ond eu bod yn bryderus ynghylch posibilrwydd dwyn sgiliau o swyddi presennol. Roedd yn poeni y byddai nifer o weithwyr medrus yn gadael eu swyddi am Wylfa Newydd. Roedd yn teimlo mai'r unig fantais y gallai ei chynnig fyddai petai ef - a pherchnogion busnesau eraill - yn gallu darparu rolau tymor hwy ac na fyddai Wylfa Newydd yn gallu darparu gyrfaedd tymor hir.
 - Roedd **SD** yn cydnabod bod hyn yn bryder a'i fod yn cael ei ystyried o ddifri. Dywedodd y byddai Horizon yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, ysgolion, colegau, contractwyr a busnesau lleol i fynd i'r afael â'r sialensiau posibl.
 - Dywedodd **DE** ei fod yn cydymdeimlo â safbwynt **JC**.
- Dywedodd Annwen Morgan (**AM**), Prif Weithredwr Cynorthwyol Cyngor Sir Ynys Môn, nad oedd y gymuned yn gwybod flwyddyn yn ôl y sefyllfa y byddai ynddi heddiw o ran y newidiadau a gafodd eu hamlinellu yn PAC3. Dywedodd fod yr ardal yn barod i fanteisio ar y Prosiect hwn, hy dod i gytundebau ynghylch y dyfodol. Dywedodd fod yr amser sydd rwan yn cael ei gymryd yn gyfle i gyfrannu at y broses Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, a chyrraedd sefyllfa lle'r oedd pawb yn fodlon.
- Dywedodd **GJ** fod pobl wedi cael eu cyflogi yn yr hen orsaf o fasnachau eraill a'u bod wedi llwyddo i ailhyfforddi eu hunain yn llwyddiannus iawn.

- Ceisiodd **TC** sicrhau **JC** (ar ei bwynt cynharach) y byddai staff yn fodlon llenwi'r swyddi gwag a ddaw ar gael, os na fyddant yn dod o'r ardal leol, yna byddent yn dod o dramor.
 - Cytunodd **JC** a dywedodd fod bylchau enfawr mewn rhai meysydd ac y byddai'n croesawu gweithwyr o unrhyw ranbarth, ond roedd arno eisiau diogelu busnesau lleol rhag gweld gostyngiadau sylweddol yn eu staff.

5. Unrhyw fater arall

- Gofynnodd Medwyn Griffiths, (**MG**) o Iechyd Cyhoeddus Cymru am yr wybodaeth ddiweddaraf am waith yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.
 - Atebodd **IG** fod gwaith yn mynd rhagddo ac y byddai'r ddogfen gyflawn yn cael ei rhannu ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Hydref.
- Diolchodd **RF** i bawb a oedd wedi bod yn y cymorthfeydd agored a dywedodd y byddai'r nesaf yn cael ei gynnal ar 16 Hydref yng Nghemaes.

6. Cloi

- Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.00pm.